# Cyngor Sir Caerfyrddin

# Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd fel rhan o'r Broses Ddemocrataidd

Helpu i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn Llywodraeth Leol

Mae'r ddogfen hon yn rhan o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd fel rhan o'r Broses Ddemocrataidd yn nodi sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio hyrwyddo'r canlynol: -

- ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o swyddogaethau'r prif gyngor;
- ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o sut i ddod yn aelod o'r prif gyngor, a beth mae aelodaeth yn ei olygu;
- ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud, gan y prif gyngor;
- ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau y gall pobl leol eu defnyddio i gyflwyno sylwadau i'r prif gyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud;
- trefniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud, at ddibenion dyletswydd y cyngor i ddwyn barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu
- ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r prif gyngor ynghylch manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

## *Beth yw swyddogaethau'r Cyngor?*

### SUT MAE'R CYNGOR YN GWEITHREDU

Mae pob Cynghorydd yn cwrdd gyda'i gilydd fel y Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer yn agored i'r cyhoedd, ond weithiau bydd y Cyngor yn penderfynu cynnal sesiwn breifat os bydd materion cyfrinachol neu eithriedig yn cael eu trafod. Mae sesiynau preifat y Cyngor yn brin. Yng nghyfarfodydd y Cyngor, mae Cynghorwyr yn penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn pennu'r gyllideb bob blwyddyn. Mae gan y Cyngor Gabinet sy'n gyfrifol yn ei dro am weithredu'r polisïau y cytunir arnynt gan y Cyngor, ac am wneud penderfyniadau gweithredol ar faterion nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor nac un o'i bwyllgorau.

### SUT MAE'R CYNGOR YN GWEITHIO

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli 51 o Wardiau Etholiadol. Fel arfer mae'r Cyngor yn cwrdd yn fisol ac mae ganddo restr o swyddogaethau gan gynnwys mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad, cymeradwyo a mabwysiadu'r Fframwaith Polisi a'r Gyllideb, penodi'r Arweinydd, a phenderfynu a chytuno ar Bwyllgorau a'u cylch gwaith.

Mae hyd at ddeg o aelodau'r Cyngor yn rhan o'r Cabinet (y Weithrediaeth), gan gynnwys Arweinydd y Cyngor. Mae'r Cabinet yn gyfrifol am gyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad yw'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Aelodau Cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn meysydd diddordeb penodol, a elwir yn bortffolios.

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn ymddwyn fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet ac i eraill sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau gwell. Gan weithio mewn ffordd debyg i bwyllgorau dethol seneddol, mae'r pwyllgorau craffu'n cynnwys Cynghorwyr nad ydynt yn y cabinet.

Y Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgorau Trwyddedu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gwneud penderfyniadau rheoleiddio'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu ar geisiadau cynllunio, mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn penderfynu ar drwyddedau i yrru cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat (tacsis), trwyddedau adloniant cyhoeddus ar gyfer safleoedd ymhlith eraill, ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y Cyngor. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n adolygu digonolrwydd darpariaeth yr Awdurdod o ran cyflawni swyddogaeth y gwasanaethau democrataidd. Hefyd ceir Pwyllgor Safonau i hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac i helpu Cynghorwyr i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Strwythur y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau:-

## Y CYNGOR

**yn cwrdd bob mis**

- **Yn cytuno ar gyllideb**
- **Yn cytuno ar fframwaith polisi corfforaethol**
- **Yn penderfynu ar fframwaith rheoli gwleidyddol**
- **Yn penodi'r Arweinydd**
- **Yn penodi'r Prif Weithredwr**
- **Yn cyflawni'r holl swyddogaethau anweithredol dynodedig eraill**

## Y CABINET

**(10 aelod gan gynnwys yr Arweinydd)**

- Yn cael ei benodi gan yr Arweinydd
- Bydd portffolio thematig yn cael ei bennu ar gyfer pob Aelod Cabinet
- Yn cynnig polisi a chyllideb i'r Cyngor
- Yn gweithredu polisïau'r Cyngor o dan gyfarwyddyd gwleidyddol yr Arweinydd
- Yn gwneud penderfyniadau gweithredol wedi'u dirprwyo, yn unol â pholisi a chyllideb y Cyngor

## PWYLLGORAU CRAFFU (5)

- Un Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau
- 4 Pwyllgor Craffu â themâu
- craffu ar y weithrediaeth
- cloriannu perfformiad a'r modd y rhoddir polisïau ar waith
- craffu ar Gynlluniau Busnes
- cynnal Adolygiadau Gwasanaeth ar y cyd â'r Cabinet

## PANELAU A PHWYLLGORAU'R CYNGOR

- **Apeliadau**
- **Penodiadau A a B**
- **Gwasanaethau Democrataidd**
- **Llywodraethu ac Archwilio**
- **Y Panel Adolygu Tai**
- **Y Panel Buddsoddi**
- **Trwyddedu**
- **Penodi Aelodau**
- **Cynllunio**
- **Safonau**
- **Bwrdd Pensiwn a Phwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed**

## PANELAU YMGYNGHOROL

**(Y Cabinet yn eu sefydlu ac yn penderfynu ar eu haelodau)**

**yn cwrdd fel y bo'r gofyn yn unol â'r cyfarwyddyd**

- Cloriannu datblygiad polisi a rhoi cyngor yn ei gylch naill ai drwy Banel Sefydlog neu Banelau Gorchwyl a Gorffen
- Yn cynnwys aelodau anweithredol a phartneriaid allanol fel y bo'n briodol
- Yn cael eu cadeirio gan yr Aelod Cabinet perthnasol

## GRWPIAU GORCHWYL A GORFFEN

**Yn cael eu sefydlu gan Bwyllgorau Craffu unigol yn cwrdd fel y bo'r gofyn yn unol â'r cyfarwyddyd**

- Cloriannu ac adolygu meysydd gwasanaeth penodol

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## SUT MAE BOD YN GYNGHORYDD

Cynhelir yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027. Bydd yr adran hon yn rhoi gwybodaeth ichi am sut mae sefyll mewn etholiad a'r hyn a ddisgwylir gennych os byddwch yn cael eich ethol yn un o Gynghorwyr Cyngor Sir Caerfyrddin.

## SEFYLL FEL YMGEISYDD

Rhaid i ymgeisydd sy'n sefyll etholiad gwblhau cyfres o bapurau enwebu y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu llofnodi yng ngŵydd tyst y mae'n rhaid iddo dystio i'r llofnod. Yna mae angen ichi ennill mwyafrif o'r pleidleisiau a gaiff eu bwrw yn y blwch pleidleisio, os oes cystadleuaeth am y sedd. Mae nifer y pleidleisiau y mae ei angen arnoch i ennill yn dibynnu ar yr adran etholiadol lle rydych yn dewis sefyll mewn etholiad. Ceir dau neu dri aelod mewn rhai adrannau etholiadol.

Bydd pecynnau enwebu ar gael ar ddechrau 2027. Os hoffech gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â'r Gwasanaethau Etholiadol drwy ffonio 01267 228609.

Os ydych yn ystyried sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol benodol, dylech yn gyntaf gysylltu â grŵp lleol y blaid honno. Os ydych yn bwriadu sefyll mewn etholiad fel Cynghorydd annibynnol, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o gael rhoi rhagor o wybodaeth ichi.

Mae Cynghorwyr yn derbyn cyflog a bennir yn flynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gallant hefyd hawlio costau teithio a chynhaliaeth (telir cynhaliaeth am brydau a llety 'y tu allan i'r sir' yn unig) wrth ymgymryd â dyletswyddau swyddogol. Gall Cynghorwyr hefyd hawlio tuag at gostau gofal a chymorth personol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau cymeradwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun peilot i ariannu cymorth ac addasiadau rhesymol i ymgeiswyr anabl sy'n sefyll yn yr etholiadau Llywodraeth Leol. Gellir gweld rhagor o fanylion yma.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am lwfansau drwy glicio ar dudalen we ganlynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol



Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**BETH SY'N DIGWYDD OS CAF FY ETHOL?**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o Gynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd. Mae Cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hadran etholiadol. Dyletswydd bennaf Cynghorwyr yw gwasanaethu'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na wnaeth bleidleisio drostynt.

Mae gan Gynghorwyr hawl i gyflog sylfaenol (£16,800 y flwyddyn ar hyn o bryd yn 2022-23). Telir uwch-gyflogau a lwfansau/treuliau eraill yn dibynnu ar y rolau a'r cyfrifoldebau sydd gennych yn dilyn etholiad. Gellir cael rhagor o wybodaeth am daliadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Hefyd gellir gweld copi o'r penderfyniadau ar gyfer 2022-23 ar wefan y Panel.

Mae gan Gynghorwyr hawl hefyd i gael lwfansau teithio a gall y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd gael ad-daliad costau gofal.

Ar ôl cael eu hethol, disgwylir i Gynghorwyr fynychu gwahanol sesiynau hyfforddiant a datblygu yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Darperir sesiwn sefydlu i'r holl Gynghorwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd yn ystod eu 12 mis cyntaf yn y swydd, a chaiff hyfforddiant pellach ei roi'n barhaus drwy ddigwyddiadau datblygu'r aelodau.

Os cewch eich ethol, dylech fod yn barod i neilltuo'r pythefnos cyntaf ar ôl yr etholiad ar gyfer Sesiwn Sefydlu i'r Aelodau ym mis Mai/Mehefin 2027.

Disgwylir i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau ac mae rheidrwydd arnynt i gadw at Gôd Ymddygiad y Cynghorwyr.

Fel cynrychiolwyr lleol, mae cyfrifoldebau gan Gynghorwyr tuag at eu hetholwyr a'u sefydliadau lleol. Yn aml mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn dibynnu ar yr hyn mae'r Cynghorydd am ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael, a gallant gynnwys: mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ei ward, mynychu cyfarfodydd sefydliadau lleol fel cymdeithasau tenantiaid a chyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach, codi materion ar ran y cyhoedd, cynnal cymorthfeydd y gall trigolion godi materion ynddynt, a chwrdd â thrigolion yn unigol yn eu cartrefi eu hunain.

**FAINT O AMSER MAE'N EI GYMRYD?**

Os ydych mewn cyflogaeth ac yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd efallai yr hoffech ofyn i'ch cyflogwr pa ddarpariaethau sydd ganddo ar waith o bosib i ganiatáu ichi roi sylw i waith y Cyngor. Ar gyfartaledd amcangyfrifir bod Cynghorwyr yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i dri neu bedwar diwrnod yr wythnos ar waith y cyngor. Yn amlwg, mae rhai Cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hyn tra bo eraill yn treulio llai.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio Byddwch yn Gynghorydd. Sicrhewch mai chi yw'r Newid ar y cyd ag awdurdodau lleol, sy'n ganllaw defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## CYFLEUSTERAU A CHYMORTH I GYNGHORWYR

Mae'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn gweinyddu cyfarfodydd y Cyngor ac yn darparu gwasanaeth cymorth penodedig, gan roi cyngor am y gyfraith a'r arferion sy'n perthyn i gyfarfodydd i Gynghorwyr, swyddogion, a'r cyhoedd, a chan roi cymorth i'r holl Gynghorwyr ag ymholiadau a cheisiadau yn ymwneud â gweinyddiaeth.

Ar ôl i Gynghorwyr gael eu hethol, rhoddir llechen, gliniadur a chyfeiriad e-bost @sirgar.gov.uk iddynt y mae'n rhaid eu defnyddio i wneud gwaith y Cyngor. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddi-bapur ac argymhellir bod pob ymgeisydd yn gallu defnyddio TG yn hyderus neu'n barod i gael hyfforddiant.

Mae'r Cyngor yn Awdurdod dwyieithog, ac, fel Cynghorydd, byddwch yn gallu gweithredu yn eich dewis iaith, boed honno y Gymraeg neu'r Saesneg, ac mae cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor er mwyn hwyluso hyn. Hefyd mae hyfforddiant Cymraeg ar gael i unrhyw Gynghorwyr sy'n dymuno dysgu'r iaith.

---

# *Sut i gael gwybodaeth am benderfyniadau sy'n cael eu gwneud neu sydd wedi'u gwneud gan y Cyngor*

---

## HYSBYSIADAU O GYFARFODYDD

Bydd y Cyngor yn rhoi o leiaf dri diwrnod clir o rybudd am unrhyw gyfarfod drwy nodi'r manylion yn electronig ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, bydd eithriad yn codi os bydd y Cyngor wedi derbyn cais gan yr Heddlu o dan adran 53A o Ddeddf Trwyddedu 2003 am adolygiad cryno o drwydded safle (bydd gofyn bod y Cyngor yn penderfynu a ddylid cymryd unrhyw fesurau rhagarweiniol o fewn 48 awr i dderbyn y cais). Yn yr achos hwn caiff y Cyngor roi llai na 3 diwrnod clir o rybudd am gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynullir i ystyried y cais.

## MYNEDIAD AT AGENDA AC ADRODDIADAU CYN Y CYFARFOD

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o’r agenda a’r adroddiadau sydd yn agored i’r cyhoedd ar gael i’w harchwilio ar wefan yr Awdurdod. Os ychwanegir eitem at yr agenda yn ddiweddarach, bydd yr agenda ddiwygiedig (lle paratoir adroddiadau ar ôl i’r wŷs gael ei hanfon allan, bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod pob adroddiad o’r fath ar gael i’r cyhoedd cyn gynted ag y bo’r adroddiad wedi ei gwblhau ac wedi’i anfon at y Cynghorwyr) ar gael i’w harchwilio erbyn adeg ychwanegu'r eitem at yr agenda.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**MYNEDIAD AT GOFNODION AC ATI AR ÔL Y CYFARFOD**

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o'r canlynol ar gael i'w gweld ar ei wefan am gyfnod o chwe blynedd ar ôl cyfarfod: (a) cofnodion y cyfarfod neu gofnod penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet, ac eithrio unrhyw ran o gofnodion trafodion pan nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei hystyried; (b) crynodeb o unrhyw drafodion nad oeddynt yn agored i'r cyhoedd lle na fyddai'r cofnodion a fyddai'n agored i'w harchwilio yn rhoi cofnod rhesymol o deg a threfnus; (c) agenda'r cyfarfod; a (d) adroddiadau yn ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd nodyn penderfyniad sy'n nodi presenoldeb, unrhyw fuddiannau a ddatganwyd a phenderfyniadau yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod.

**MYNEDIAD I WELD CYFARFODYDD***

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynychu neu weld cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd naill ai:-

- wyneb yn wyneb (os bydd rheoliadau cadw pellter cymdeithasol yn caniatáu a bod rhan o'r cyfarfod yn cynnwys bod yn bresennol yn gorfforol)
- drwy fideo-gynadledda os ydynt yn gwneud sylwadau/gofyn cwestiynau
- drwy wylio cyfarfod yn fyw drwy ein tudalen gweddarlledu neu yn yr archif (bydd y gweddarllediad ar gael i'w weld am 6 mis). Gellir gwneud ceisiadau am gopïau o weddarllediadau wedi'u harchifo y tu hwnt i 6 mis drwy'r Gwasanaethau Democrataidd – mae'n bosibl y bydd tâl gweinyddol bach yn cael ei godi am y gwasanaeth hwn.

(*Nid yw hyn yn berthnasol pan fydd gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei thrafod).

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## *Sut i gymryd rhan a chyflwyno sylwadau i'r Cyngor cyn ac ar ôl i benderfyniad gael ei wneud;*

Y CYNGOR A'R CABINET

Gall aelodau o'r cyhoedd, ar yr amod eu bod yn byw yn y Sir, yn berchen ar fusnes sydd wedi ei leoli yn y Sir neu'n gweithio yn y Sir, ofyn cwestiynau yng Nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, cyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu.

I ofyn cwestiwn mae angen ichi gyflwyno'ch cwestiwn yn ysgrifenedig neu drwy'r post electronig i'r Prif Weithredwr (e-bost prifweithredwr@sirgar.gov.uk) erbyn 10.00a.m. 7 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod (DS nid yw diwrnodau clir yn cynnwys y diwrnod y mae'r cwestiwn yn dod i law na diwrnod y cyfarfod).

Wrth gyflwyno'ch cwestiwn, mae'n rhaid ichi gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad (a chynnwys enw a chyfeiriad eich busnes os ydych yn berchen ar fusnes yn Sir Gaerfyrddin neu'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin ond yn byw yn rhywle arall) ac mae'n rhaid ichi enwi'r aelod o'r Cyngor y gofynnir y cwestiwn iddo.

Mae'r Cyngor hefyd yn croesawu deisebau ac yn cydnabod bod deisebau yn un o nifer o ffyrdd y gall pobl roi gwybod inni am eu pryderon a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Gellir gweld copi o gynllun deisebau'r Cyngor yma.

CRAFFU

Cymryd rhan yn y broses graffu yw un o'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor, gan y bydd Cynghorwyr yn cael clywed am eich profiadau yn uniongyrchol. Gallwch gymryd rhan yn y gwaith craffu yn y Cyngor mewn nifer o ffyrdd:

- Gofyn cwestiwn neu fynd i gyfarfod Pwyllgor Craffu
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y broses graffu
- Awgrymu pwnc i'w adolygu
- Cyfrannu tystiolaeth at adolygiadau craffu

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am gymryd rhan yn y broses graffu yn ddiweddarach yn y ddogfen hon a/neu ar ein tudalennau Craffu .

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

CYFLWYNO SYLWADAU YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGORAU CYNLLUNIO A THRWYDDEDU

Mae gan y Cyngor broses benodol ar gyfer cyflwyno sylwadau yn y Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu:-

I gael gwybod mwy am gyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu, cliciwch ar y dolenni canlynol:-

Cyflwyno sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

Cyflwyno sylwadau mewn Pwyllgorau Trwyddedu

---

## *Sut i ddwyn barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau craffu*

---

### SUT ALLAF GYMRYD RHAN YN Y BROSES GRAFFU?

Mae cyfraniad trigolion lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o broses graffu Sir Gaerfyrddin ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon trigolion.

Cymryd rhan yn y broses graffu yw un o'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor, gan y bydd Cynghorwyr yn cael clywed am eich profiadau yn uniongyrchol. Gallwch gymryd rhan yn y gwaith craffu yn y Cyngor mewn nifer o ffyrdd:

- Mynd i gyfarfod Pwyllgor Craffu
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y broses graffu
- Awgrymu pwnc i'w adolygu
- Cyfrannu tystiolaeth at adolygiadau craffu

Mae holl gyfarfodydd Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan fo angen trafod gwybodaeth eithriedig. Mae modd gweld rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd ac eitemau agenda ar ddyddiadur cyfarfodydd y cyngor.  Os hoffech ddod i gyfarfod, yr unig beth y mae'n rhaid ichi ei wneud yw dod i fan cynnal y cyfarfod (a nodir ar flaen yr agenda).

Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch wneud cais am osod eitem ar yr agenda, ac os ydych yn byw yn Sir Gaerfyrddin, yn berchen ar fusnes yn Sir Gaerfyrddin neu'n cael eich cyflogi yno, gallwch ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn ein dogfen, Rheolau Gweithdrefn Craffu 10. (3) a (4) neu cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth

### CAEL Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR HYN SY'N DIGWYDD YN Y BROSES GRAFFU

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y broses graffu, er enghraifft gallwch:



Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028  /  GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

- Danysgrifio i ffrwd RSS ar ein gwefan a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn awtomatig pan fydd agendâu a chofnodion yn cael eu cyhoeddi. Ystyr **RSS** yw "Syndicetiad Syml Iawn" ac mae'n ffordd hawdd o gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor Craffu. Mae modd tanysgrifio drwy wasgu'r botwm ar frig y dudalen hon.
- Lawrlwytho'r ap mod.gov a fydd yn caniatáu ichi lawrlwytho a gweld papurau cyfarfodydd yn awtomatig.
- Edrych ar ein ffrwd ar Facebook a Twitter i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

## AWGRYMU PWNC I'W ADOLYGU

- Os ydych yn credu bod pwnc y dylai'r Pwyllgor Craffu ei drafod, rhowch wybod inni. Gallwch awgrymu pwnc i'w adolygu drwy anfon neges e-bost atom, neu drwy lawrlwytho a phostio ein ffurflen awgrymu pwnc.

## CYFRANNU TYSTIOLAETH AT ADOLYGIADAU CRAFFU

Wrth wneud gwaith craffu, yn enwedig adolygiadau manwl, mae Cynghorwyr yn gobeithio cael ystod eang o dystiolaeth gan nifer o ffynonellau. Bydd cyflwyno tystiolaeth yn helpu i sicrhau eich bod yn cael lleisio'ch barn a bod y Cynghorwyr yn gwneud argymhellion a fydd yn gwella'r gwasanaethau o safbwynt y defnyddiwr. Os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw faterion a'ch bod am gyflwyno tystiolaeth, cysylltwch â ni:-

Yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP
Ffôn: 01267 224028 | E-bost: craffu@sirgar.gov.uk

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

## *Y manteision i Gynghorwyr o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.*

Bellach mae'r cyfryngau cymdeithasol yn arf pwerus i Gynghorwyr ac yn eu helpu i ymgysylltu â chymunedau, codi ymwybyddiaeth o faterion cymunedol, digwyddiadau, neu fentrau'r Cyngor, a cheisio barn a chael adborth.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio, mae'n gwneud gwleidyddion a sefydliadau cyhoeddus yn fwy hygyrch, yn caniatáu i unigolion leisio'u barn ac yn helpu i rannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd.

Drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol gallwch:-

- Dysgu am faterion lleol, a phryderon yn eich ward.
- Gweld y newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf gan Gyngor Sir Caerfyrddin, awdurdodau lleol eraill, Llywodraeth Cymru a sefydliadau megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Hyrwyddo'ch rôl a'r hyn yr ydych yn ei wneud o ddydd i ddydd.
- Rhannu gwybodaeth yn gyflym ar unwaith a chael barn eich etholwyr.

Mae llawer o Gynghorwyr eisoes yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ond, fel Cynghorydd, mae pethau ychwanegol i'w hystyried wrth eu defnyddio, gan gynnwys y Côd Ymddygiad a rheoli disgwyliadau.

Ar ôl cael eu hethol, gwahoddir Cynghorwyr i sesiwn sefydlu ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae'r Cyngor yn cynnig modiwl e-ddysgu hefyd. Fel Cynghorydd byddwch yn bersonol gyfrifol am y cynnwys yr ydych yn ei gyhoeddi a rhaid ichi gadw at y Côd Ymddygiad wrth bostio gwybodaeth gan fod y Côd Ymddygiad yn berthnasol i gynnwys ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy gyfeirio ar-lein at eich rôl fel Cynghorydd ystyrir eich bod yn gweithredu yn 'rhinwedd eich swydd' a bydd y Côd yn berthnasol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu canllaw am ddim i Gynghorwyr ynghyd â rhai awgrymiadau a chyngor o ran ymdrin â cham-drin ar-lein.

Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y Cyfryngau Cymdeithasol a Cham-drin Ar-lein

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol o 1 Mai 2022.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.
01267 224028 / GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council